| | |
|---|---|
| PWYLLGOR | **PWYLLGOR ARCHWILIO A LLYWODRAETHU** |
| DYDDIAD | **30 GORFFENNAF 2020** |
| TEITL | **ADRODDIAD BLYNYDDOL PENNAETH ARCHWILIO MEWNOL 2019/2020** |
| PWRPAS YR ADRODDIAD | **MYNEGI BARN ARCHWILIO MEWNOL AR YR AMGYLCHEDD REOLAETHOL GYFFREDINOL O FEWN YR AWDURDOD** |
| AWDUR | **LUNED FÔN JONES - RHEOLWR ARCHWILIO** |
| GWEITHREDIAD | **DERBYN YR ADRODDIAD** |

---

**1. BWRIAD ARCHWILIO MEWNOL**

1.1 Pwrpas y gwasanaeth Archwilio Mewnol yw:

***Rhoi hyder i'r dinesydd a'r Cyngor am amgylchedd reolaeth a threfniadau llywodraethu'r Cyngor trwy adrodd yn annibynnol a gwrthrychol i'r Pennaeth Cyllid a'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu***

**2. SAFONAU ARCHWILIO MEWNOL Y SECTOR GYHOEDDUS**

2.1 Mae Nodyn CIPFA sy'n cymhwyso Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus i Lywodraeth Leol (2019) yn datgan:

*"Mae pob sefydliad llywodraeth leol yn gyfrifol am sefydlu a chynnal prosesau rheoli risg priodol, systemau rheoli, cofnodion cyfrifo a threfniadau llywodraethu. Mae Archwiliad Mewnol yn chwarae rhan hanfodol drwy roi sicrwydd bod y trefniadau hyn yn eu lle ac yn gweithredu'n briodol. Mae'r farn archwilio mewnol blynyddol sydd yn ofynnol yn y Safonau yn gwybyddu'r datganiad llywodraethu, ac yn pwysleisio ac yn adlewyrchu pwysigrwydd yr agwedd hon ar waith archwilio mewnol."*

2.2 Pwrpas yr adroddiad yma yw darparu cyfryw farn archwilio mewnol blynyddol i'r Awdurdod. Wrth roi fy marn, dylid nodi na all sicrwydd fyth fod yn llwyr. Y mwyaf y gall gwasanaeth archwilio mewnol ei ddarparu i'r Cyngor ydi cyngor rhesymol nad oes gwendidau mawr yn y system gyfan o reolaeth fewnol.

2.3 Wrth asesu'r lefel cyngor i'w roi, rwyf wedi ystyried pob archwiliad sy'n berthnasol i 2019/2020 ac unrhyw weithrediad dilynol parthed archwiliadau o'r cyfnod yma a chyfnodau blaenorol.

**3. SICRWYDD CYFFREDINOL**

3.1 **Ar sail gwaith Archwilio Mewnol a gwblhawyd yn ystod 2019/2020, yn fy marn i, mae gan Gyngor Gwynedd fframwaith gadarn o reolaeth fewnol. Mae hyn yn cynorthwyo i roi hyder yn y trefniadau i sicrhau cyfiawnhad effeithiol ac effeithlon o amcanion y Cyngor, gan fod y camau a gymerwyd gan y Cyngor yn ystod y flwyddyn ariannol i gynnal a chryfhau rheolaethau mewnol ac i sicrhau fod y camau gweithredu cytunedig i gywiro gwendidau a adnabuwyd gan Archwilio Mewnol wedi bod yn foddhaol.**

3.2 **Ystyriaethau**

Er mwyn rhoi fy marn ar ddigonolrwydd y systemau rheolaeth fewnol, rwyf wedi ystyried y canlynol:

- Yn gyffredinol, canfuwyd rheolaeth fewnol dda o fewn pob un o wasanaethau'r Cyngor yn unigol.
- Mae holl adrannau'r Cyngor wedi adeiladu ar waith blaenorol, gan barhau i ddatblygu eu cyfundrefnau rheoli risg.
- Ble darganfuwyd gwendidau arwyddocaol mewn rheolaeth fewnol, cafodd y materion hyn eu cywiro gan swyddogion y Cyngor, ac wedi derbyn sylw y Gweithgor Gwella Rheolaethau neu fe dderbyniasant sylw gan y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu.
- Nid yw Archwilio Mewnol wedi dibynnu ar unrhyw waith gan gyrff archwilio allanol er mwyn dod i'r farn yn yr adroddiad yma.

**4. GWAITH ARCHWILIO**

**Cynllun Archwilio**

4.1 Roedd 49 darn o waith wedi eu cynnwys yng nghynllun archwilio addasedig terfynol 2019/2020. Cafodd 45 o'r aseiniadau hyn eu cwblhau erbyn 31 Mawrth 2020, sy'n cynrychioli **91.84%** o'r cynllun. At bwrpasau'r mesur yma caiff aseiniad ei gyfrif wedi ei gwblhau os oes adroddiad/memorandwm terfynol wedi ei ryddhau neu os yw'r aseiniad wedi ei gau a ni ddisgwylir treulio mwy o amser arno. Yr uchelgais perfformiad oedd 95%.

4.2 Mae rhestr o'r archwiliadau o gynllun 2019/2020 sydd wedi cyfrannu at y farn a fynegir yn yr adroddiad blynyddol wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

4.3 Ble'n berthnasol, caiff lefel sicrwydd ei ddarparu ar gyfer yr adroddiadau archwiliad mewnol sydd yn seiliedig ar werthusiad o'r amgylchedd reolaeth fewnol ac ar y nifer o risgiau a adnabuwyd ynghyd â'u sgôr risg cyfatebol. Mae'r sgôr risgiau cyfredol yn syrthio i un o bedwar categori risg sef:

| LEFEL RISG | SGÔR |
|---|---|
| UCHEL IAWN | 20 - 25 |
| UCHEL | 12 - 16 |
| CANOLIG | 6 - 10 |
| ISEL | 1 - 5 |

4.4 Mae lefelau sicrwydd cyffredinol archwiliadau yn syrthio i un o bedwar categori fel y dengys y tabl isod:

| LEFEL SICRWYDD | DIFFINIAD |
|---|---|
| UCHEL | Gellir datgan sicrwydd o briodoldeb gan y gellir dibynnu ar y rheolaethau mewnol mewn lle i gyflawni amcanion. |
| DIGONOL | Mae rheolaethau mewn lle i gyflawni amcanion ond bod agweddau lle gellir tynhau ar y trefniadau i liniaru'r risgiau ymhellach. |
| CYFYNGEDIG | Er bod rheolaethau mewn lle, mae angen gwella cydymffurfiaeth â'r rheolaethau a/neu gyflwyno rheolaethau newydd i leihau'r risgiau mae'r gwasanaeth yn agored iddynt. |
| DIM SICRWYDD | Ystyrir bod y rheolaethau mewn lle yn annigonol gyda methiant i gyflawni amcanion. |

4.5 Nod pob un o'r gweithrediadau cytunedig o fewn yr adroddiadau oedd cryfhau'r rheolaethau mewnol sydd yn lliniaru risgiau gweithredol ac i sefydlu ymarfer da.

4.6 O'r 45 aseiniad yng nghynllun archwilio 2019/2020 a gafodd eu cwblhau, dyfarnwyd y lefelau sicrwydd canlynol:

| Lefel Sicrwydd | Nifer Archwiliadau |
|---|---|
| Uchel | 13 |
| Digonol | 22 |
| Cyfyngedig | 4 |
| Dim Sicrwydd | 0 |
| Dim Categori | 6 |
| **Cyfanswm** | **45** |

4.7 O'r adroddiadau perthnasol o gynllun archwilio 2019/2020 a dderbyniodd lefel sicrwydd, derbyniodd 77.77% ohonynt lefel sicrwydd "Digonol" neu "Uchel".

4.8 Ni dderbyniodd unrhyw archwiliad lefel "Dim Sicrwydd".

4.9 Caiff yr adroddiadau llawn eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar ôl i'r adroddiad terfynol gael ei gytuno gyda'r cleiant a'i ryddhau. Lle caiff memorandwm ei anfon yn hytrach nag adroddiad llawn, a lle nad oes categori sicrwydd, mae'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn crynodeb byr o ddarganfyddiadau'r archwiliadau perthnasol ble'n briodol.

4.10 Dengys y tabl isod pa gyfarfod o'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a dderbyniodd fanylion yr archwiliadau o gynllun 2019/2020. Mae dyddiadau cyfarfodydd perthnasol y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu hefyd wedi eu rhestru yn Atodiad 1.

| Dyddiad Rhyddhau'r Adroddiad/ Memorandwm Terfynol | Dyddiad Adrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
|---|---|
| 1 Ebrill 2019 – 4 Hydref 2019 | 17 Hydref 2019 |
| 7 Hydref 2019 – 15 Tachwedd 2019 | 28 Tachwedd 2019 |
| 18 Tachwedd 2019 – 31 Ionawr 2020 | 13 Chwefror 2020 |
| 3 Chwefror 2020 – 31 Mawrth 2020 | 30 Gorffennaf 2020 |

**Addasiadau i'r Cynllun**

4.11 Adroddwyd yn rheolaidd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ystod y flwyddyn ar addasiadau i'r cynllun archwilio.

**Gwaith Dilyniant**

4.12 Allan o'r 88 gweithrediad cytunedig a wnaethpwyd yn 2018/19, roedd gweithrediad derbyniol ar **76.14%** ohonynt erbyn 31 Mawrth 2020, gwelwyd bod cynnydd wedi ei wneud ar 12.5% ac ni dderbyniwyd ymateb ar gyfer 11.36% (4 archwiliad unigol). Bydd y Gwasanaeth yn ail-ymweld â'r rhain yn y flwyddyn ariannol gyfredol.

**Gweithgor Gwella Rheolaethau**

4.13 Parhaodd y Gweithgor Gwella Rheolaethau gyda'i waith o gryfhau trefniadau'r Cyngor i ymateb i adroddiadau Archwilio Mewnol. Mae'r Gweithgor, sef Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor a tri aelod arall (sydd wedi eu cylchdroi) yn cwrdd rhwng cyfarfodydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac yn trafod materion o wendidau rheolaeth sydd wedi codi yng nghyfarfod y Pwyllgor, er mwyn rhoi sylw i'r rhain mewn mwy o ddyfnder. Caiff swyddogion eu gwahodd i'r Gweithgor i egluro'r gwendid rheolaeth, ac yn anad dim y camau sydd yn cael eu dilyn i wella'r sefyllfa.

## 5. ADNODDAU ARCHWILIO MEWNOL

**Staffio a Chymwysterau**

5.1 Y Rheolwr Archwilio sydd yn ymgymryd â swyddogaeth "Pennaeth Archwilio Mewnol". Mae'r Rheolwr Archwilio yn atebol i'r Pennaeth Cynorthwyol - Refeniw a Risg, sydd yn atebol i'r Pennaeth Cyllid. Mae gan y Rheolwr Archwilio ac un Arweinydd Archwilio cymhwyster CIPFA llawn ac mae gan yr Arweinydd arall gymhwyster llawn ACCA. Mae dwy Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster CIPFA a dau Uwch Archwiliwr yn astudio am gymhwyster AAT.

5.2 Ers 1 Ebrill 2020, 7 aelod llawn amser sydd i'r Tîm Archwilio Mewnol ac un Uwch Archwiliwr Dros Dro i gyfro mamolaeth ac absenoldeb Uwch Archwiliwyr i fynychu Coleg ar gyfer ennill eu cymhwyster proffesiynol.

**Y defnydd a wneir o adnoddau staff**

5.3 Mae Atodiad 2 yn cynnwys dadansoddiad o ddefnydd amser swyddogion Archwilio Mewnol yn ystod y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2019 a 31 Mawrth 2020. Tynnir sylw'r Pwyllgor i'r canlynol:

- Mae'r tabl yn arddangos gostyngiad yn nifer y dyddiau cynhyrchiol oedd ar gael i'w darparu ar gyfer archwiliadau Cyngor Gwynedd o **913** diwrnod rhwng 1 Ebrill 2018 a 31 Mawrth 2019 i **681** diwrnod am yr un cyfnod yn 2019/2020, gostyngiad o **232**. Roedd hyn yn bennaf o ganlyniad i absenoldeb mamolaeth, cynorthwyo Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri yn eu trefniadau diwedd blwyddyn ariannol a darparu gwasanaeth archwilio i Byw'n Iach Cyf.
- Roedd y nifer o ddyddiau a ddefnyddiwyd ar gyfer cyflawni archwiliadau arbennig neu ymatebol yn 18 diwrnod o gymharu â 34 o ddiwrnodau yn 2018/19.
- Roedd y dyddiau a ddefnyddiwyd i gyflawni archwiliadau dilyniant yn 31 diwrnod yn 2019/2020 o gymharu â 50 diwrnod yn 2018/19.

## 6. PERFFORMIAD ARCHWILIO

6.1 Roedd canlyniadau mesurau cyflawni'r gwasanaeth archwilio mewnol yn ystod 2019/2020 fel a ganlyn:

| Disgrifiad Mesurydd | Perfformiad 2018/19 | Uchelgais 2019/20 | Canlyniadau 2019/20 |
|---|---|---|---|
| Canran archwiliadau'r cynllun archwilio sydd yn barod i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau. | 96.67% | 95% | **91.84%** |
| Cyfran o'r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd "Digonol" neu well (mesur corfforaethol). | 88.46% | 80% | **77.77%** |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen (mesur corfforaethol). | 94.48% | 85% | **76.14%** |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). | - | 100% | **100%** |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â'r amserlen. (mesur corfforaethol). | - | 85% | **72.73%** |

## 7. CYNLLUNIAU GWAITH A THARGEDAU 2020/2021

7.1 Cyflwynwyd cynllun archwilio mewnol drafft ar gyfer 2020/2021 i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn ei gyfarfod ar 13 Chwefror 2020. Fodd bynnag, oherwydd pandemig Covid-19, mae cynllun archwilio mewnol newydd wedi'i ddrafftio a fydd yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 30 Gorffennaf 2020.

7.2 Mae mesurau cyflawni Archwilio Mewnol yn dangos pa mor dda yr ydym yn cyflawni ein pwrpas. Mesurau cyflawni Archwilio Mewnol ar gyfer 2020/2021 yw:

| Mesur | Uchelgais 2020/21 | Cyfeiriad Uchelgais |
|---|---|---|
| Canran archwiliadau’r cynllun archwilio sydd yn barod i’w cyflwyno i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu am eu bod un ai gydag adroddiad terfynol wedi ei ryddhau, neu wedi eu gau. | 95% | Cynnal |
| Cyfran o’r archwiliadau mewnol yn derbyn lefel sicrwydd “Digonol” neu well (mesur corfforaethol). | 80% | Cynnal |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg uchel neu uchel iawn sydd wedi eu gweithredu yn unol â’r amserlen. (mesur corfforaethol). | 100% | Cynnal |
| Cyfran o'r gweithrediadau cytunedig lefel risg isel neu canolig sydd wedi eu gweithredu yn unol â’r amserlen. (mesur corfforaethol). | 85% |  |

## 8. RHAGLEN SICRWYDD ANSAWDD A GWELLIANT ARCHWILIO MEWNOL

8.1 Cyflwynwyd i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 13 Gorffennaf 2017 ganlyniad yr hunanasesiad o gydymffurfiaeth â Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) ynghyd â’r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. Cyflwynwyd canlyniadau’r asesiad allanol i’r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu a gynhaliwyd ar 17 Hydref 2019. Mae cynnydd yn erbyn y Rhaglen wedi ei gynnwys yn Atodiad 3.

## 9. ARGYMHELLIAD

9.1 Gofynnir i’r Pwyllgor dderbyn yr adroddiad yma fel adroddiad blynyddol ffurfiol y Pennaeth Archwilio Mewnol yn unol â gofynion Safonau Archwilio Mewnol y Sector Gyhoeddus am y flwyddyn ariannol 2019/2020.

**Atodiad 1**

# Cynllun Archwilio Mewnol 2019/20

| Enw'r Archwiliad | Lefel Sicrwydd | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
|---|---|---|
| **CORFFORAETHOL** | | |
| Cefnogi Adolygiadau Ffordd Gwynedd | **Dim Categori** | |
| Merched mewn Arweinyddiaeth | **Uchel** | 30 Gorffennaf 2020 |
| Costau Teithio Hunan-wasanaeth | **Digonol** | 17 Hydref 2019 |
| Trefniadau Diogelu - Sefydliadau | **Digonol** | 30 Gorffennaf 2020 |
| Diwylliant a Moeseg | **Dim Categori** | 30 Gorffennaf 2020 |
| Gwaith Atal Twyll ac Atal Llygredigaeth Rhagweithiol a'r Fenter Twyll Genedlaethol | **Dim Categori** | |
| Rheoli Gwybodaeth - Sefydliadau | **Digonol** | 30 Gorffennaf 2020 |
| Trefniadau Dychwelyd Cyfarpar ac Offer | **Cyfyngedig** | 13 Chwefror 2020 |
| **Cyfathrebu** | | |
| Defnydd a Rheolaeth o Gyfryngau Cymdeithasol | **Digonol** | 17 Hydref 2019 |
| **ADDYSG** | | |
| **Adnoddau** | | |
| Grant Datblygu Disgyblion | **Digonol** | 17 Hydref 2019 |
| Grant Rhanbarthol Consortia Gwella Ysgolion | **Uchel** | 17 Hydref 2019 |
| Grant Addysg Ôl-16 | **Dim Categori** | 13 Chwefror 2020 |
| **GwE** | | |
| GwE - Costau Teithio | **Cyfyngedig** | 30 Gorffennaf 2020 |
| **Ysgolion** | | |
| Penodi a Chostau Athrawon Llanw - Uwchradd | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| Cyfrifon Ymddiriedolaeth | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| Ysgolion Cyffredinol | **Dim Categori** | |
| Ysgol Pendalar | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| Ysgol Hafod Lon | **Uchel** | 13 Chwefror 2020 |
| **AMGYLCHEDD** | | |
| **Cynllunio** | | |
| Cytundebau Adran 106 | **Digonol** | 28 Tachwedd 2019 |
| **Trafnidiaeth a Gofal Stryd** | | |
| Uned Diogelwch y Ffyrdd | **Digonol** | 30 Gorffennaf 2020 |
| **Uned Cefn Gwlad a Mynediad** | | |
| Grant AHNE | **Uchel** | 28 Tachwedd 2019 |
| **CYLLID** | | |
| **Ariannol** | | |
| System Taliadau- Newid Data Sefydlog | **Digonol** | 17 Hydref 2019 |
| **Cyfrifeg** | | |
| Datganiad Cyfrifyddu Harbyrau 2018-19 | **Uchel** | 17 Hydref 2019 |

| Enw'r Archwiliad | Lefel Sicrwydd | Dyddiad Cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu |
|---|---|---|
| Datganiad Cyfrifyddu Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd 2018-19 | **Uchel** | 17 Hydref 2019 |
| Datganiad Cyfrifyddu Bwrdd Uchelgais Economaidd Gogledd Cymru 2018-19 | **Uchel** | 17 Hydref 2019 |
| Cysoni Banc | **Digonol** | 30 Gorffennaf 2020 |
| **Refeniw** | | |
| Rôl Cyngor Gwynedd mewn perthynas â Chredyd Cynhwysol | **Uchel** | 13 Chwefror 2020 |
| Budd-daliadau - Adolygiad o'r Rheolaethau Allweddol | **Uchel** | 30 Gorffennaf 2020 |
| **ECONOMI A CHYMUNED** | | |
| **Adfywio Cymunedol** | | |
| Cronfa'r Degwm | **Uchel** | 13 Chwefror 2020 |
| **Archifau, Amgueddfeydd a Chelfyddydau** | | |
| Cyfrifon Amgueddfa Lloyd George | **Uchel** | 13 Chwefror 2020 |
| **Morwrol a Pharciau Gwledig** | | |
| Iechyd a Diogelwch Harbyrau | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| Mesurau Diogelwch Parc Padarn | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| **OEDOLION, IECHYD A LLESIANT** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Defnydd o Ffurflenni P6 | **Uchel** | 30 Gorffennaf 2020 |
| Rheoli Absenoldebau | **Dim Categori** | 13 Chwefror 2020 |
| **Cefnogi Pobl** | | |
| Grant Cefnogi Pobl | **Uchel** | 17 Hydref 2019 |
| **Digartrefedd a Thai Cefnogol** | | |
| Cynllun Ail-leoli Ffoaduriaid Syria | **Digonol** | 17 Hydref 2019 |
| Costau Gwely a Brecwast | **Digonol** | 28 Tachwedd 2019 |
| **Preswyl a Dydd** | | |
| Plas Pengwaith | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| Bryn Blodau | **Digonol** | 28 Tachwedd 2019 |
| Llys Cadfan | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| **PLANT A CHEFNOGI TEULUOEDD** | | |
| **Plant a Theuluoedd** | | |
| Cyfrifon Clybiau Ieuenctid | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| Taliadau i Ofalwyr Maeth | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| **PRIFFYRDD A BWRDEISTREFOL** | | |
| **Ar draws yr adran** | | |
| Goramser | **Cyfyngedig** | 30 Gorffennaf 2020 |
| **Gwaith Bwrdeistrefol** | | |
| Cynnal a Chadw Meysydd Chwarae | **Digonol** | 13 Chwefror 2020 |
| **Gwaith Priffyrdd** | | |
| Rhaglen Waith - Pontydd | **Cyfyngedig** | 30 Gorffennaf 2020 |

**Crynodeb o nifer yr adaroddiadau ym mhob lefel sicrwydd, Cynllu 2019/2020:**

| Lefel Sicrwydd | Nifer Archwiliadau |
|---|---|
| Uchel | 13 |
| Digonol | 22 |
| Cyfyngedig | 4 |
| Dim Sicrwydd | 0 |
| Dim Categori | 6 |
| **Cyfanswm** | **45** |

**Atodiad 2**

**Dadansoddiad Amser Archwilio Mewnol 1 Ebrill - 31 Mawrth:**

| 2018/19 | | 2019/2020 |
|---|---|---|
| **2,118** | **Cyfanswm Dyddiau** | **2,037** |
| 240 | Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Blynyddol | 241 |
| 53 | Amser Di-gynnyrch: Gwyliau Statudol | 56 |
| 293 | *Llai Gwyliau (Statudol ac Anstatudol)* | 297 |
| **1,825** | **Cyfanswm y Dyddiau Ar Gael** | **1,741** |
| | *Llai:* | |
| 15 | Gwyliau Arbennig | 10 |
| 109 | Salwch | 117 |
| 90 | Cyfnod Mamolaeth | 232 |
| 81 | Hyfforddiant Proffesiynol | 115 |
| 80 | Hyfforddiant Swydd | 21 |
| **1,451** | **Dyddiau ar gael** | **1,247** |
| | Llai Amser Di-gynnyrch: | |
| 13 | Apwyntiadau Meddygol | 13 |
| 31 | Cofnodi a Rheoli Amser | 25 |
| 98 | Cyfarfodydd a Phwyllgorau | 77 |
| 8 | Cyflwyno Hyfforddiant | 4 |
| 2 | Cynnal Cyfweliadau | 0 |
| 46 | Gwaith Cefndirol | 38 |
| 24 | Gweinyddiaeth ayb. | 13 |
| 3 | Prosiect iGwynedd | 14 |
| 4 | Pwyllgor Archwilio | 5 |
| 114 | Rheolaeth Archwilio Mewnol | 107 |
| 2 | Rheoli Absenoldebau | 2 |
| 43 | Trafferthion TG | 4 |
| 4 | Ymarferiad Rheoli Gwybodaeth Archwilio Mewnol | 4 |
| 10 | Tasgau Cyd-weithio Gogledd Cymru | 2 |
| 3 | Cyfarfodydd/Gwaith ar y cyd ag Archwilwyr Allanol | 7 |
| 7 | Amser Teithio | 10 |
| 0 | Cadw mewn Cysylltiad | 10 |
| 0 | Ymarferiadau Tân | 0 |
| **1,038** | **Cyfanswm Dyddiau Cynhyrchiol** | **912** |
| 37 | Gwaith APCE | 84 |
| 89 | Cynghorau Tref a Chymuned | 98 |
| 0 | Byw'n Iach Cyf. | 49 |
| **913** | **Cyfanswm dyddiau cynhyrchiol, Cyngor Gwynedd** | **681** |

**Dadansoddiad o ddefnydd dyddiau cynhyrchiol Cyngor Gwynedd:**

| **2018/19** | | **2019/2020** |
|---|---|---|
| 776 | Gwaith Cynllun blwyddyn gyfredol | 564 |
| 0 | Cwblhau gwaith blwyddyn flaenorol | 11 |
| 16 | Cychwyn gwaith blwyddyn ddilynol | 6 |
| 37 | Cynghori | 49 |
| 50 | Gwaith dilyniant | 31 |
| 34 | Gwaith Ymatebol/Archwiliadau Arbennig | 18 |
| **913** | | **681** |

**Atodiad 3**

| RHIF GWEITHRED | SAFON PSIAS | CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON | GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG | CYFRIFOLDEB | AMSERLEN WREIDDIOL | CYNNYDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 01 | ***1110 - Annibyniaeth Cyfundrefnol*** | A chwilir am adborth gan Gadeirydd y Pwyllgor Archwilio ar gyfer gwerthuso perfformiad y prif weithredwr archwilio? | Mae Cyngor Gwynedd yn y broses o ddatblygu cynllun gwerthuso 360-gradd ar gyfer rheolwyr - dylai bod Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn derbyn gwahoddiad i roi adborth ar berfformiad y Rheolwr Archwilio yn y cyfarfod gwerthuso nesaf. | Pennaeth Cyllid a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg | 31/03/2018 | Nid yw'r cynllun gwerthuso 360-gradd wedi ei ddatblygu hyd yma ond bellach, mae Cadeirydd y Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu yn mynychu cyfarfodydd perfformiad gyda'r Aelod Cabinet Cyllid. |
| 02 | ***1310 – Gofynion y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant yn cynnwys asesiadau mewnol ac allanol | Bydd asesiad allanol yn cael ei gynnal gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gaerfyrddin yn unol â threfniadau adolygiad cyfoedion Grŵp Prif Archwilwyr Cymru (WCAG). | Rheolwr Archwilio | 31/12/2017 | Mae'r asesiad allanol bellach wedi ei gwblhau gan brif weithredwr archwilio Cyngor Sir Gâr. |
| 03 | ***1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd ar ganlyniadau'r asesiad allanol i'r uwch reolwyr a'r bwrdd? | Canlyniadau'r asesiad allanol i'w cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu. | Rheolwr Archwilio | 08/02/2018 | Cyflwynwyd canlyniadau'r asesiad allanol i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ar 17 Hydref 2019. |

| RHIF GWEITHRED | SAFON PSIAS | CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON | GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG | CYFRIFOLDEB | AMSERLEN WREIDDIOL | CYNNYDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 04 | ***1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw canlyniadau monitro'r rhaglen sicrwydd ansawdd a gwelliant a chynnydd yn erbyn y cynllun gwella yn cael eu hadrodd yn flynyddol o leiaf? | Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant i'w cynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. | Rheolwr Archwilio | 10/05/2018 | Cynnydd yn erbyn y cynllun sicrwydd ansawdd a gwelliant yn rhan o'r Adroddiad Blynyddol. |
| 05 | ***1320 – Adrodd ar y Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant*** | A yw'r canlyniadau yn cynnwys gwerthusiad yr asesydd neu'r tîm asesu o safbwynt i raddau cydymffurfiaeth y weithgaredd archwilio mewnol gyda'r Safonau? | Gwerthusiadau'r asesiadau allanol i'w hymgorffori yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol. | Rheolwr Archwilio | 10/05/2018 | Mae hyn wedi ei gynnwys yn Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio. |
| 06 | ***1322 – Datgelu Diffyg Cydymffurfiaeth*** | A yw'r prif weithredwr archwilio wedi adrodd am unrhyw ddiffyg o gydymffurfio â'r safonau i'r bwrdd? | Unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth i'w haradrodd i'r Pwyllgor Archwilio a Llywodraethu ac unrhyw wyriadau arwyddocaol i'w cynnwys yn y datganiad llywodraethu blynyddol. | Rheolwr Archwilio a'r Pennaeth Cynorthwyol – Refeniw a Risg | Fel yr angen | Nid oes unrhyw achosion o ddiffyg cydymffurfiaeth nac unrhyw wyriadau arwyddocaol. |

| RHIF GWEITHRED | SAFON PSIAS | CYDYMFFURFIAETH Â'R SAFON | GWEITHREDIAD ARFAETHEDIG | CYFRIFOLDEB | AMSERLEN WREIDDIOL | CYNNYDD |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 07 | ***2450 – barn Gyffredinol*** | A yw'r adroddiad blynyddol yn cynnwys:<br>a) Datganiad ar gydymffurfiaeth â'r Safonau?<br>b) Canlyniadau'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant?<br>Cynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant? | Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol i ymgorffori datganiad o gydymffurfiaeth â'r Safonau a chynnydd yn erbyn unrhyw gynlluniau gwella sy'n deillio o'r Rhaglen Sicrwydd Ansawdd a Gwelliant. | Rheolwr Archwilio | 10/05/2018 | Adroddiad Blynyddol y Pennaeth Archwilio Mewnol – caiff hyn ei wneud yn flynyddol. |